OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3985

# Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001

**Personau â hawliau cadw lle nad yw cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol yn gymwys**

**2.**—(1) At ddibenion adran 50(8) nid oes yr un rhan o adrannau 50(3) i (7) (cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol mewn achosion hawliau cadw) yn gymwys i berson a bennir at ddibenion y rheoliad hwn ym mharagraff (2) isod.

(2) Mae person a bennir at ddibenion y rheoliad hwn yn berson sydd, mewn perthynas â'r diwrnod yn union cyn y diwrnod penodedig —

(a) heb hawl i gael cymhorthdal incwm o dan adran 124(1) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**), neu sydd â hawl felly ond sydd heb hawl gadw at ddibenion rheoliad 19 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm; neu

(b) sy'n cael gwasanaethau ôl-ofal yn unol â'r gofyniad yn adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**).

(**1**) 1992 p.4.
(**2**) 1983 p.20.